Hysbysiad o dan Amod ExtVTQCov1.1(b): 27 Ebrill 2021

At: Swyddogion Cyfrifol yr holl gyrff dyfarnu sy'n cynnig Cymwysterau Galwedigaethol

Mae Cymwysterau Cymru yn rhoi rhybudd o dan Amod ExtVQCov1.1(b) y bydd Fframwaith ExtVQCov yn cael ei ddatgymhwyso mewn perthynas â'r holl VQs[1] fel y nodir isod.

Mae'r hysbysiad hwn hefyd yn cynnwys darpariaethau trosiannol ac arbed a wnaed o dan Amod ExtVQCov1.2(c). Rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â'r darpariaethau trosiannol ac arbed hyn o dan Amod ExtVQCov1.3.

Datgymhwyso'r Fframwaith ExtVQCov

Bydd amodau ExtVQCov1 i ExtVQCov11 (ac eithrio Amod ExtVQCov1.3) yn cael eu datgymhwyso mewn perthynas â phob VQ o 27 Ebrill 2021, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol ac arbed a nodir isod.

Bydd Amod ExtVQCov1.3 yn parhau mewn grym i hwyluso cydymffurfiad â'r darpariaethau trosiannol ac arbed hynny.

Darpariaethau trosiannol ac arbed

Rhaid i gorff dyfarnu gadw'r holl gofnodion o wneud penderfyniadau sy'n ofynnol o dan Amod ExtVQCov8 am 3 blynedd ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn, a darparu'r cofnodion hynny i Cymwysterau Cymru ar gais.

[1] Mae gan dermau yn yr hysbysiad hwn yr un ystyr ag o dan Amodau ExtVQCov1.4 ac Ext VQCov1.8.